CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 7 CHWEFROR 2008 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D H Roberts (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch. H M Davies (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs. Liza Brough
	Mr. Robert Griffiths

Croesawodd y Comisiwn Mr Robert Griffiths a oedd newydd ymuno â'r Ysgrifenyddiaeth.

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 18 RHAGFYR 2007

2.1 Cytunwyd â'r rhain.

3. MATERION YN CODI

Trefniadau Archwilio

3.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf ond nid oed wedi cael ateb hyd yn hyn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ceisio cael ateb.

Cynllun Gweithredol

3.2 Adroddwyd bod y cyfarwyddiadau ar gyfer arolwg cymunedol Abertawe wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ac felly mae wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredol. Disgwylir y byddai LlCC yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn ei dro, a hyd y derbyniwyd hwnnw, nid oedd modd gorffen y Cynllun Gweithredol.

Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (PSBC) – Ymateb y Llywodraeth

3.3 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol ac wedi cael ateb a roddwyd gerbron aelodau. **Cytunwyd** ar gynnwys yr arolwg o'r ddeddfwriaeth ar agenda'r cyfarfod Rhyng-Gomisiynol sydd i'w gynnal ym mis Mawrth 2008.

Arolwg Cymunedol Wrecsam

3.4 Adroddwyd yr anfonwyd llythyr i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol ynghylch Arolwg Cymunedol Wrecsam ac na chafwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn.

Cyfarfod Rhyng-Gomisiynol

3.5 Adroddwyd y byddai'r cyfarfod Rhyng-Gomisiynol sydd ar ddod, yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Park Plaza. Cynhelir cinio Rhyng-Gomisiynol ar noswaith 6 Mawrth ac fe'i dilynir gan y cyfarfod Rhyng-Gomisiynol ar 7 Mawrth 2008.

4. AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI - CRYNODEB O GYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

Tref Caerffili a Phenyrheol, Trecenydd ac Energlyn

4.1 Ystyriodd y Comisiwn yr ail-alinio arfaethedig o'r ffiniau rhwng Ward Trecenydd, o Benyrheol, Trecenydd ac Energlyn a Wardiau'r Castell a Watford, Caerffili. Nodwyd bod y ddau Gyngor Cymuned yn cefnogi'r newidiadau hyn a oedd yn golygu mabwysiadu llinell Ffordd Nantgarw fel y ffin ddiwygiedig ac felly'n trosglwyddo rhan o ystâd Sunningdale o Gaerffili i Benyrheol, Trecenydd ac Energlyn a rhan o ystâd Cwrt Rawlins o Benyrheol, Trecenydd ac Energlyn i Gaerffili. Tynnodd Cyngor Tref Caerffili sylw hefyd, os mabwysiedir y ffin hon, byddai'n rhaid ail-alinio'r ffin y ward gyfagos rhwng wardiau'r Castell a Watford o'i Gymuned gan na fyddai rhan o ffin y ward bresennol yn briodol bellach. Nodwyd gan y Comisiwn hefyd bod datblygiadau wedi digwydd hefyd ar draws y ffin bresennol rhwng wardiau'r Castell a Watford a bod angen mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn. Awgrymodd y Cyngor hefyd gan fod ystâd Cwrt Rawlins i gyd o fewn ei ffiniau y byddai'n ddymunol creu ward gymuned newydd yn dwyn yr enw Ward Cwrt Rawlins a fyddai'n cynnwys ystâd Cwrt Rawlins ynghyd â rhan ogledd-orllewinol y Ward Watford bresennol. Adroddwyd bod ymweliad â'r safle wedi cadarnhau bod y ffin gymuned a'r ffin ward gymunedol wedi'u diffinio'n eglur ar lawr.

4.2 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r ffin a ail-aliniwyd rhwng Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn a Chaerffili ac y byddai'r ffin rhwng Wardiau'r Castell a Watford Cymuned Caerffili yn cael ei ail-alinio yn ôl awgrym Cyngor Tref Caerffili fel newid ôl-ddilynol o ganlyniad i newid i'r ffin gymunedol.

4.3 Roedd y Comisiwn hefyd i ystyried creu Ward newydd Cwrt Rawlins yng Nghaerffili o newid ôl-ddilynol i'r ail-alinio cymunedol pe bai ffigurau etholwyr yn cefnogi newid o'r fath. **Cytunwyd** y byddid yn cael ffigurau ar gyfer nifer yr etholwyr yn ardal Cwrt Rawlins oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn cynorthwyo'r Comisiwn i asesu'r cynnig hwn.

Tref Caerffili

4.4 Nododd y Comisiwn y newidiadau a awgrymwyd gan Gyngor Tref Caerffili i'w ffiniau wardiau cymuned. O ystyried y ffaith nad oedd newidiadau sylweddol i drefniadau etholiadol cymunedol yn y cylch gwaith a ganiateir gan y cyfarwyddiadau ar gyfer arolwg cymunedol, ystyriwyd y gellid mabwysiadu'r newidiadau a awgrymwyd o ganlyniad i unrhyw newid yn ffin gymunedol Caerffili yn unig. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd unrhyw newid sylweddol i ffin Gymunedol Caerffili a fyddai'n cyfiawnhau newid ffiniau wardiau cymunedol fel yr awgrymwyd gan Gyngor Tref Caerffili a byddai'n rhaid rhoi unrhyw newid o'r fath ar waith ar ôl arolwg gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn

4.5 Nododd y Comisiwn y newid a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn i'w ffin ward gymunedol rhwng Wardiau Energlyn a Threcenydd. Nodwyd bod y cynnig i ail-alinio'r ffin i gynnwys Mill Close a Diamond Close yn Ward Energlyn yn welliant ar y ffin bresennol a oedd yn rhannu sawl eiddo a bod ymweliad safle wedi cadarnhau bod y ffin a awgrymwyd wedi'i diffinio'n eglur. Nododd y Comisiwn y byddai'r newidiadau a awgrymwyd i'r ffin gymunedol rhwng Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn a Llanbradach yn effeithio ar Ward Energlyn ac felly gellid ystyried y newid a awgrymwyd i'r ffin ward gymunedol yn un ôl-ddilynol. Fodd bynnag, gan y byddai'r ddau gynnig yn golygu cynnydd yn nifer yr etholwyr yn Ward Energlyn, ni wyddys p'un a fyddai'r trefniadau etholiadol canlyniadol yn ddichonadwy. **Cytunwyd** gofyn am y ffigurau ar gyfer nifer yr etholwyr oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer yr ardaloedd hynny yr effeithir arnynt ac ystyried effaith y cynigion ar Ward Energlyn.

Llanbradach a Phenyrheol, Trecenydd ac Energlyn

4.6 Nododd y Comisiwn y newidiadau a awgrymwyd i'r ffin rhwng Cymunedau Llanbradach a Phenyrheol, Trecenydd ac Energlyn a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Llanbradach a Phwllypant. Roedd y Cyngor wedi cyflwyno'r cynigion hyn ar sail y ffaith fod y ffin bresennol yn rhannu Ystâd Energlyn. Yn ystod ymweliad safle gwelwyd bod y cynnig cyntaf sef ymestyn y ffin gymunedol i'r de gan ddilyn Heol Las a Heol Pwllypant wedi'i ddiffinio'n eglur ar lawr. Ystyriwyd bod cynnig amgen y Cyngor sef ymestyn y ffin yn fwy i'r de hyd at waelod Court Road yn un dyrys gan y gwelwyd yn ystod yr ymweliad safle bod y ffordd y mae'r ffin orllewinol yn ei dilyn wedi'i chau gan rwystr parhaol ac felly mae'r 13 tŷ diwethaf ar fan deheuol y ffin a awgrymwyd heb gyswllt ffordd uniongyrchol i'r ardal a fyddai'n cael ei throsglwyddo i Lanbradach.

4.7 Ystyriodd y Comisiwn y cynnig amgen a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn sef y dylid ymestyn ei ffiniau i'r gogledd er mwyn cynnwys rhan ogleddol Ystâd Energlyn sydd ar hyn o bryd yn Ward Pwllypant, o Gymuned Llanbradach, ynghyd â'r llain o dir agored i'r gogledd, a'r eiddo i'r gorllewin o'r rheilffordd sy'n mynd o Lanbradach i Gaerffili. Roedd yr ymweliad safle wedi cadarnhau ei bod yn ymddangos bod y rheilffordd yn rhannu Ward Pwllypant a byddai'n darparu ffin wedi'i diffinio'n eglur. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y rheilffordd yn rhannu'n effeithiol ac felly roedd rhinwedd yn y cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn i ddefnyddio'r llinell reilffordd honno fel y ffin rhwng eu cymuned hwy a Chymuned Llanbradach. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Energlyn i ail-alinio'r ffin gymunedol i ddilyn y llinell reilffordd i'r gogledd ac yna i ddilyn ffin Ward Pwllypant i'r gorllewin nes ailymuno â'r ffin bresennol.

Llanbradach a Thref Caerffili

4.8 Ystyriodd y Comisiwn y newidiadau i'r ffin rhwng Cymunedau Llanbradach a Thref Caerffili a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Llanbradach a Phwllypant a fyddai'n trosglwyddo dau eiddo yn Heol y Gedr oddi ar Lôn Corbetts o dref Caerffili i Lanbradach. Roedd y Comisiwn o'r farn bod rhinwedd i'r cynnig hwn o ystyried mai'r unig ffordd i gael mynediad i'r eiddo hyn oedd drwy Lanbradach. Nodwyd, fodd bynnag, bod rhan fechan o'r ffin ddwyreiniol heb ei diffinio. Adroddwyd bod yr ymweliad safle wedi dangos nad oedd llawer o bosibilrwydd i newid y ffin a

awgrymwyd yn y fan honno gan ei bod yn dilyn priffordd i'r dwyrain heb unrhyw gyfle i droi'r ffin tua'r gogledd er mwyn ailymuno â'r ffin bresennol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu cynnig Cyngor Cymuned Llanbradach a Phwllypant sef ail-alinio'r ffin rhwng Llanbradach a Thref Caerffili yn Lôn Corbetts.

Llanbradach, Maesycwmer a Bedwas, Tretomas a Machen

4.9 Ystyriodd y Comisiwn y newidiadau a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Llanbradach a Phwllypant i'r ffin rhwng Cymunedau Llanbradach, Maesycwmer a Bedwas, Tretomas a Machen. Ystyriwyd y byddai'r cynnig i ddefnyddio'r llinell a grëir gan ffordd osgoi Llanbradach yn darparu ffin wedi'i diffinio'n eglur rhwng y cymunedau a gynhwysir ac roedd hyn wedi'i gadarnhau gan ymweliad safle. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu cynnig Cyngor Cymuned Llanbradach a Phwllypant sef ail-alinio'r ffin rhwng Llanbradach, Maesycwmer a Bedwas, Tretomas a Machen.

Pen-maen a Chrymlyn

4.10 Ystyriodd y Comisiwn gynnig a gyflwynwyd gan breswylydd lleol sef y dylid ail-alinio'r ffin rhwng Cymunedau Pen-maen a Chrymlyn er mwyn trosglwyddo anheddiad Croespenmaen i gyd o Grymlyn i Ben-maen. Adroddwyd bod ymweliad safle wedi dangos bod rhannau amrywiol o'r ffin a awgrymwyd heb eu diffinio'n eglur gan fod adeiladau cyfagos wedi'u rhannu mewn sawl man ar y llinell ddwyreiniol a'r llinell ddeheuol. Roedd y Comisiwn o'r farn, er ei bod yn ymddangos bod yr anheddiad yn perthyn i'r un gymuned, nid oedd y ffin a gynigiwyd yn gynnig amgen boddhaol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ceisio barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar y cynnig i ail-alinio'r ffin.

4.11 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn fabwysiadu polisi o ymgynghori â'r prif gynghorau a chynghorau cymuned (lle y bo'n berthnasol) ar unrhyw gynnig i ail-alinio ffin a gynigiwyd gan aelod o'r cyhoedd neu unrhyw gynnig cychwynnol i ail-alinio ffin a ddaw gan y Comisiwn ei hun.

Pen-maen ac Argoed

4.12 Ystyriodd y Comisiwn gynnig a gyflwynwyd gan aelod o'r cyhoedd sef y dylid ail-alinio'r ffin rhwng Cymunedau Pen-maen ac Argoed i gynnwys pentref Man-moel a'i ardal gyfagos yng Nghymuned Pen-maen. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod ardal Man-moel wedi'i wahanu oddi wrth weddill Argoed gan Afon Sirhywi ac ymddangosai na allai preswylwyr deithio'n hawdd yn uniongyrchol i ochr orllewinol Argoed. Nodwyd bod y ffin a awgrymwyd yn dilyn Afon Sirhywi am y rhan fwyaf o'i hyd ac felly dylai ddarparu ffin wedi'i diffinio'n eglur er y byddai angen ymweliad safle arall i gadarnhau hyn ar gyfer hyd y ffin i gyd. **Cytunwyd** y dylai'r cynnig gael ei fabwysiadu dros dro ond y byddai barn y prif gynghorau cymuned a'r cynghorau cymuned perthnasol yn cael ei cheisio cyn ei gadarnhau fel cynnig drafft.

Pen-maen, Y Coed Duon a Phontllanfraith

4.13 Ystyriodd y Comisiwn gynnig a gyflwynwyd gan aelod o'r cyhoedd sef y dylid ail-alinio'r ffin rhwng Cymunedau Pen-maen a'r Coed Duon i drosglwyddo anheddiad Woodfieldside o Ben-maen i'r Coed Duon. Nodwyd bod y ffin a awgrymwyd wedi'i diffinio'n eglur gan ei bod yn dilyn ffordd, ac er ei bod yn cael ei gwahanu oddi wrth

Y Coed Duon gan afon, bod cysylltiadau cyfathrebu da rhwng ardal Woodfieldside a'r Coed Duon. Nodwyd hefyd bod man mwyaf deheuol y ffin a awgrymwyd yn gorffen lle mae'n cwrdd â'r ffin bresennol rhwng Cymunedau Pen-maen a Phontllanfraith, gan y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i'r ffin a awgrymwyd barhau i ddilyn y ffordd i'r de hyd gylchfan ac yna fynd i'r gorllewin a dilyn y ffordd nes ailymuno â'r ffin bresennol. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo rhan fechan o Bontllanfraith, ynghyd â Woodfieldside, i'r Coed Duon. **Cytunwyd** y dylai'r cynnig gael ei fabwysiadu dros dro ond y byddai barn y prif gynghorau cymuned a'r cynghorau cymuned perthnasol yn cael ei cheisio cyn ei gadarnhau fel cynnig drafft.

Pengam a Maesycwmer

4.14 Ystyriodd y Comisiwn awgrym i ail-alinio'r ffin rhwng cymunedau Pengam a Maesycwmer er mwyn unioni anghysondeb bychan. **Cytunwyd** y dylai'r cynnig gael ei fabwysiadu dros dro ond y byddai barn y prif gynghorau cymuned a'r cynghorau cymuned perthnasol yn cael ei cheisio cyn ei gadarnhau fel cynnig drafft.

Pontllanfraith a Maesycwmer

4.15 Ystyriodd y Comisiwn awgrym i ail-alinio'r ffin rhwng cymunedau Pontllanfraith a Maesycwmer er mwyn unioni anghysondeb bychan. **Cytunwyd** y dylai'r cynnig gael ei fabwysiadu dros dro ar yr amod bod y ffin ddiwygiedig yn cael ei hestyn tua'r de i gynnwys sawl eiddo ym Mhontllanfraith ac y byddai barn y prif gynghorau cymuned a'r cynghorau cymuned perthnasol yn cael ei cheisio cyn ei gadarnhau fel cynnig drafft.

Pengam a Chefn Fforest

4.16 Ystyriodd y Comisiwn awgrym i ail-alinio'r ffin rhwng cymunedau Pengam a Chefn Fforest er mwyn unioni anghysondeb bychan. **Cytunwyd** y dylid mabwysiadu'r cynnig a dylid cael barn y prif gynhorau a'r cynghorau cymuned perthnasol hefyd.

4.17 Ystyriodd y Comisiwn awgrym i ail-alinio'r ffin rhwng cymunedau Pengam a Chefn Fforest er mwyn trosglwyddo nifer sylweddol o anheddau o Bengam i Gefn Fforest. Roedd yr anheddau yn ymylu ar ardal debyg yng Nghefn Fforest ac ymddangosai yn debygol bod yr ardal ddatblygedig o Gefn Fforest wedi ymestyn dros y ffin i Bengam. **Cytunwyd** y dylid mabwysiadu'r cynnig a dylid cael barn y prif gynhorau a'r cynghorau cymuned perthnasol hefyd.

Caerffili a'r Fan

4.18 Ystyriodd y Comisiwn awgrym i ail-alinio'r ffin rhwng cymunedau Tref Caerffili a'r Fan er mwyn unioni anghysondeb bychan. **Cytunwyd** y dylid mabwysiadu'r cynnig a dylid cael barn y prif gynhorau a'r cynghorau cymuned perthnasol hefyd.

Rhisga

4.19 Ystyriodd y Comisiwn yr awgrym y gellid rhannu Cymuned Rhisga yn ddwy gymuned newydd sef Gorllewin Rhisga a Dwyrain Rhisga. Er nad oedd gan y gymuned gyngor cymuned ac nid oedd wedi'i rhannu'n wardiau fe'i rhannwyd yn

Orllewin a Dwyrain at ddibenion etholiadol llywodraeth leol. **Cytunwyd** y dylid mabwysiadu'r cynnig a dylid cael barn y prif gynhorau a'r cynghorau cymuned perthnasol hefyd.

5. AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL – CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

Cyngor Tref Llandudno / Cyngor Tref Conwy

5.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynigion a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llandudno i ail-alinio rhan o'r ffin rhwng Cymunedau Llandudno a Chonwy yn ardaloedd Deganwy, Llanrhos a Bryn Pydew. Y rheswm a roddwyd am y newid oedd y byddai'n cynnwys llwybrau troed a fyddai'n gwella rhwydwaith Llwybrau Llandudno a chynorthwyo eu rheoli a'u gweinyddu. Nododd y Comisiwn hefyd bod cyngor Tref Conwy yn gwrthwynebu'r cynnig a wnaed i Gyngor Tref Llandudno. **Cytunwyd** y byddai cynnig i ail-alinio'r ffin rhwng Cyngor Tref Llandudno a Chyngor Tref Conwy fel yr awgrymwyd gan Gyngor Tref Llandudno, ynghyd â newid bach, yn cael ei gynnwys yn y Cynigion Drafft.

Cyngor Cymuned Dolgarrog / Cyngor Cymuned Trefriw

5.2 Ystyriodd y Comisiwn yr awgrym a wnaed gan Swyddog o Gyngor Sirol Conwy ynghylch ystyried cyfuno Cynghorau Cymuned Dolgarrog a Threfriw. Adroddwyd bod llythyron wedi'u hanfon at Gynghorau Cymuned Dolgarrog a Threfriw ac i'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol i gael eu barn am yr awgrym. Roedd y Comisiwn wedi cael un ateb yn unig, sef oddi wrth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol a awgrymodd y byddai eu huno yn cyfuno'r ward [Adran Etholiadol] yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a hwyluso cynrychiolaeth sy'n cael gwybodaeth well yn y Cyngor Bwrdeistref Sirol. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig i gyfuno'r ddwy Gymuned yn un gymuned heb wardiau yn cael ei gynnwys yn y cynigion drafft.

6. GOHEBIAETH ODDI WRTH GYNGOR CYMUNED DYFFRYN CLYDACH

6.1 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Glerc Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach yn esbonio na fyddai'r Comisiwn yn cymryd unrhyw gamau pellach. **Cytunwyd** y byddai'r mater hwn yn cael ei gofnodi fel cwyn.

7. GWYLIAU CYHOEDDUS A GWYLIAU BRAINT 2008

7.1 Nododd y Comisiwn y dyddiadau ar gyfer gwyliau Cyhoeddus a gwyliau braint a chytunwyd arnynt.

8. ADRODDIAD CYLLID – 3^{ydd} CHWARTER 2007 – 08

8.1 Nododd y Comisiwn y sefyllfa ar ddiwedd trydydd chwarter 2007/08. Adroddwyd yr hysbyswyd yr Isadran Noddi ynghylch y tanwario posibl ar ddiwedd y flwyddyn.

9. UNRHYW FUSNES ARALL

9.1 Adroddiad yr Ysgrifennydd ei fod wedi cael gohebiaeth oddi wrth Gyfarwyddwr Cenedlaethol, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, a roddwyd copi gerbron Aelodau. Nododd y Comisiwn y canllawiau yn yr ohebiaeth ynghylch arddull a fformat 'print bras'. **Cytunwyd** rhoi hyn ar waith lle bo'n ymarferol gwneud felly fel rhan o broses barhaus.

9.2 Nododd y Comisiwn y sefyllfa ynghylch cyfieithu adroddiad cynnig Terfynol Môn. Roedd yr Ysgrifennydd wedi codi'r mater ag Isadran Iaith Gymraeg LICC ac roedd yn parhau i aros am ateb. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn aros am yr ateb cyn penderfynu ar ba gamau eraill i'w cymryd. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn parhau â'i bolisi o gyfeirio at Gynghorau yn y ffurf luosog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

9.3 Nododd y Comisiwn yr amserlen ddiwygiedig a osodwyd gerbron yr aelodau. Adroddwyd y gallai fod llithriant o ran arolwg Rhondda Cynon Taf ac ni chafwyd unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer Blaenau Gwent. Nodwyd y byddai'r amserlen arfaethedig a gyflwynwyd gan LICC ar gyfer ymgynghori gan y Gweinidog a'r Prif Awdurdodau yn golygu llithriant i ddechrau'r Arolwg Etholiadol. **Cytunwyd** y byddai Arolygon Etholiadol yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd yn y dyfodol.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10.1 Roedd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Dydd Iau 13 Mawrth 2008 am 10:45
Dydd Iau 24 Ebrill 2008 am 10:45